**Disgrifiad Swydd**

| | |
|---|---|
| **Cyfadran/Cyfarwyddiaeth/Maes Gwasanaeth:** | Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd/ Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol |
| **Teitl y Swydd:** | Cydymaith Ymchwil Seicoleg a Busnes y Ganolfan BioHYB Cynhyrchion Naturiol |
| **Adran/Pwnc:** | Seicoleg / Rheolaeth |
| **Cyflog:** | *Gradd 7 £33,882* – £37,99 y flwyddyn pro rata |
| **Oriau gwaith:** | CALl1, 35 awr yr wythnos |
| **Nifer y Swyddi:** | 1 |
| **Contract:** | *Swydd am gyfnod penodol yw hon tan 30/09/2028* |
| **Lleoliad:** | *Lleolir y swydd hon ar Gampws Singleton a Champws y Bae* |

| | |
|---|---|
| **Prif Ddiben y Swydd** | Mae'r **Ganolfan BioHYB Cynhyrchion Naturiol,** sy'n hyb trawsddisgyblaethol yn Adran y Biowyddorau ym Mhrifysgol Abertawe, yn un o Ganolfannau Sbarduno'r Economïau Gwyrdd UKRI. Ein cenhadaeth yw harneisio potensial diwydiannol microbau ewcaryotig gan feithrin cydweithrediad rhyngddisgyblaethol. Mae'r Ganolfan yn targedu'r farchnad sy'n tyfu'n gyflym ar gyfer cynhyrchion naturiol, gan gynnwys gwrthficrobau, asidau organig a chymwysiadau amaethyddol.<br><br>Mae'r Ganolfan BioHYB Cynhyrchion Naturiol yn defnyddio galluoedd ymchwil presennol a modelau busnes arloesol i symleiddio'r daith o ddarganfod i fasnacheiddio. Mae hyn yn cynnwys canolbwyntio ar ddatblygu cymwysiadau biotechnolegol algâu a darganfod cynhyrchion naturiol. Y nod yw ymchwilio i gynhyrchion naturiol, datblygu prosesau arloesol, goresgyn heriau rheoleiddiol a hwyluso dichonoldeb masnachol cynhyrchion newydd, gan ysgogi arloesi ym maes technoleg werdd a chefnogi cynaliadwyedd byd-eang. Bydd y Ganolfan yn manteisio ar arbenigedd trawsddisgyblaethol Prifysgol Abertawe, y Ganolfan ar gyfer Amaethyddiaeth a Biowyddorau Rhyngwladol (CABI) a Chymdeithas Gwyddor Môr yr Alban (SAMS) yn ogystal â chydweithrediadau diwydiannol sefydledig. Cefnogir y Ganolfan BioHYB Cynhyrchion Naturiol gan thema strategol Adeiladu Dyfodol Gwyrdd Ymchwil ac Arloesi yn y DU (UKRI), rhif grant UKRI239.<br><br>Mae strategaethau gweithredol y Ganolfan yn cynnwys allgymorth cydweithredol, masnacheiddio organebau, ymchwil a datblygu organebau a phrosesau, a phlatfformau profi, dadansoddi a sgrinio uwch. Ategir yr ymdrechion hyn gan isadeiledd sylweddol i hyrwyddo datblygiad economaidd cynaliadwy. Nod y Ganolfan yw denu buddsoddiad preifat, gwella galluoedd lleol ac annog mabwysiadu cyffredin atebion ar sail yr economi werdd. Drwy ragori mewn ymchwil a datblygu ym maes biotechnoleg werdd, mae'r Ganolfan yn ymrwymedig i gyflawni buddion economaidd ac amgylcheddol sylweddol, creu swyddi gwyrdd a sicrhau ffyniant rhanbarthol.<br><br>O fewn y fframwaith a grëwyd gan y Ganolfan, mae cyfle i gefnogi'r daith arloesol (o'r cyfnod cynnar i gyfnod hwyrach) o safbwynt trawsddisgyblaethol gan fanteisio ar arbenigedd am Seicoleg y Defnyddiwr (yr Ysgol Seicoleg) a Datblygiad Model Busnes (Yr Ysgol Reolaeth) i gefnogi llwyddiant masnacheiddio. Er enghraifft, |

| | |
|---|---|
| | defnyddio methodolegau arbrofol sy'n seiliedig ar ddewis i ystyried sbardunau gwneud penderfyniadau gan randdeiliad, drwy gefnogi arloeswr i ymgorffori'r wybodaeth hon i'w model busnes (e.e. gwerth).<br><br>**Ynglyn â'r Rôl:**<br>Arweinir rheolaeth a'r gweithgarwch sy'n ganolog i'r rôl hon ar y cyd gan yr Ysgol Seicoleg (Dr Laura Wilkinson) a'r Ysgol Reolaeth (Yr Athro David Pickernell).<br><br>Mae'r Ysgol Seicoleg yn lle gwych i ymgymryd ag ymchwil sy'n bwysig. Rydym yn cynnal ymchwil cydweithredol a rhyngddisgyblaethol o safon sy'n cynnwys sbectrwm cyfan gwyddoniaeth seicolegol o ymchwil sylfaenol i ymchwil gymhwysol. Er nad yw'r prosiect hwn yn gyfyngedig i fwyd, mae'r gweithgarwch yn defnyddio ymchwil flaenorol ar dderbynioldeb y defnyddiwr o fwydydd a chynhwysion arloesol a chynaliadwy a fydd yn rhan o Grŵp Ymchwil Maeth, Archwaeth a Gwybyddiaeth Abertawe (SNAC) sy'n cynnal ymchwil seicolegol ar sbardunau ymddygiad bwyta (yn ogystal â meysydd cysylltiedig).<br><br>Nodau'r Ysgol Reolaeth yw creu ymchwil gydweithredol, arloesol ac amlddisgyblaethol drwy weithio gyda rhai o'r ymchwilwyr gorau a mwyaf disglair o bob cwr o'r byd. Bydd gweithgarwch y prosiect hwn yn defnyddio cryfder penodol busnesau bach y DU sy'n tyfu, sy'n eiddo i fenywod ac yn cael eu rheoli ganddynt. |
| **Prif Ddyletswyddau** | 1. Cymryd rhan a chydlynu'r gwaith o gyd-ddylunio ymchwil seicoleg y defnyddiwr sy'n cyflwyno gwybodaeth ac effaith i deithiau arloesi a model busnes rhanddeiliad allanol.<br>2. Arwain ar gynnal astudiaethau ymchwil seicoleg y defnyddiwr ar gyfer y prosiect - gan gynnwys cael cymeradwyaeth foesegol, recriwtio cyfranogwyr a dadansoddi data.<br>3. Cyfrannu (ac arwain lle bo'n briodol) at weithgarwch cyfnewid gwybodaeth gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol, gan ganolbwyntio'n benodol ar gefnogi defnyddio ymchwil mewn cyd-destun busnes.<br>4. Cyfrannu at geisiadau cydweithredol (y byd academaidd a byd diwydiant) am gyllid.<br>5. Cyfrannu at rwydweithio, rhannu gwybodaeth a lledaenu gyda rhanddeiliaid posib.<br>6. Cynnal ymchwil a chyfrannu'n rhagweithiol at gynnal ymchwil, gan gynnwys casglu, paratoi a dadansoddi data, creu syniadau gwreiddiol a chyflwyno canlyniadau.<br>7. Paratoi adroddiadau, drafftio patentau a phapurau sy'n disgrifio canlyniadau'r ymchwil, boed yn gyfrinachol neu i'w cyhoeddi.<br>8. Bod yn hunangymhellol, cymhwyso a defnyddio eich menter eich hun, ceisio dod o hyd i ffyrdd addas o ymdrin â heriau a gofyn am arweiniad pan fo angen.<br>9. Rhyngweithio'n gadarnhaol ac yn broffesiynol â chydweithredwyr a phartneriaid eraill yn y Brifysgol a thu hwnt megis ym myd diwydiant, mewn sefydliadau cyhoeddus, ac yn y byd academaidd.<br>10. Bod yn ymwybodol o ddatblygiadau yn y maes, o safbwynt technegol, penodol a chyffredinol, a'u goblygiad ehangach ar gyfer maes y ddisgyblaeth, cymwysiadau masnachol a'r economi wybodaeth.<br>11. Gweithredu fel cynrychiolydd neu aelod o bwyllgorau pan fo angen, gan achub ar y cyfle i ehangu eich profiad proffesiynol.<br>12. Dangos eich datblygiad proffesiynol eich hun gan ddarparu tystiolaeth, nodi anghenion datblygu, gan gyfeirio at Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr Vitae, yn enwedig o ran cyfnod prawf, Adolygiad Datblygiad Proffesiynol a chymryd rhan mewn digwyddiadau hyfforddi.<br>13. Cynnal a gwella cysylltiadau â'r sefydliadau proffesiynol a chyrff cysylltiedig eraill.<br>14. Ufuddhau i brotocolau arfer gorau wrth gynnal a chadw cofnodion ymchwil, fel y nodir gan ganllawiau rheoli cofnodion HEI a'r Cynghorau Ymchwil. Mae hyn yn cynnwys gwneud yn siŵr bod cofnodion llyfrau log prosiectau yn cael eu cyflwyno i'r Brifysgol/y Prif Ymchwilydd ar ôl gorffen y gwaith. |
| **Dyletswyddau Cyffredinol** | 15. Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn arferion gwaith a chynnal perthnasoedd gweithio cadarnhaol.<br>16. Cyflawni rôl a holl weithgareddau'r swydd yn unol â systemau rheoli a pholisïau diogelwch, iechyd a chynaliadwyedd, er mwyn lleihau'r risgiau a'r effeithiau sy'n deillio o weithgarwch y swydd. |

| | |
|---|---|
| | 17. Sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o unrhyw broses benderfynu, drwy sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Rheoli Risg y Brifysgol.<br>18. Unrhyw ddyletswyddau eraill y mae'r Gyfadran/Gyfarwyddiaeth/ Maes Gwasanaeth wedi cytuno arnynt. |
| **Manyleb Person** | **Meini Prawf Hanfodol:**<br>1. PhD mewn Seicoleg neu gyfwerth (neu gyflwyniad diweddar/ar fin cyflwyno)<br>2. Tystiolaeth o'r gallu i ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol wrth rannu gwybodaeth (yn benodol busnesau menter bach a chanolig)<br>3. Tystiolaeth o'r gallu i gymryd rhan weithredol mewn ysgrifennu a chyhoeddi papurau ymchwil, yn arbennig ar gyfer cylchgronau a adolygir a chyfrannu atynt.<br>4. Gallu amlwg i gynnal ymchwil yn unol ag amcanion y prosiect<br>5. Tystiolaeth o sgiliau trefnu i weithio'n effeithiol ar draws Ysgolion a chyfrannu at weithgareddau'r Ganolfan BioHYB Cynhyrchion Naturiol<br>6. Gallu i gydweithio â rhanddeiliaid gyda chefndiroedd disgyblu gwahanol (e.e. Y Biowyddorau).<br>7. Ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus<br><br>**Meini Prawf Dymunol:**<br>8. Profiad blaenorol o gynnal seicoleg y defnyddiwr sy'n seiliedig ar y diwydiant (er enghraifft, derbynioldeb y defnyddiwr o gynhwysyn arloesol mewn bwyd), cyfleu'r canfyddiadau hyn i bartner y diwydiant ac ystyried sut gall y canfyddiadau gael eu defnyddio i gefnogi masnacheiddio. |
| **Lefel Iaith Gymraeg** | Level 1 – 'a little' - pronounce Welsh words. Able to answer the phone in Welsh (good morning / afternoon). Able to use very basic every-day words and phrases (thank you, please etc.). Level 1 can be reached by completing a one-hour training course.<br><br>Am ragor o wybodaeth am Lefelau'r Iaith Gymraeg, gweler tudalen we'r Asesiad o Sgiliau Iaith Gymraeg, sydd ar gael yma. |
| **Gwybodaeth Ychwanegol** | Ymholiadau anffurfiol:<br>Laura Wilkinson – L.L.Wilkinson@abertawe.ac.uk a David Pickernell - d.g.pickernell@abertawe.ac.uk |